YSTADEGAU SWYDDOGOL

Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 3 (Gorffennaf – Medi 2018) i Gymru

Uchafbwyntiau

Wedi'i gywiro 21 Chwefror 2019

Ffigur 1: Cyfanswm y Tystysgrifau



Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol

4.6%

Dyfarnwyd **216,130** o dystysgrifau rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018. Mae hyn yn ostyngiad o **4.6%** o gymharu â'r un chwarter yn 2017, pan roddwyd **226,540**.

Rhwng mis Hydref a mis Medi 2018 rhoddwyd **412,480** o dystysgrifau, sef gostyngiad o **2.3%** o gymharu â **422,315** rhwng mis Hydref 2016 a mis Medi 2017.

2.3%

Y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno gwybodaeth i Gymru a gasglwyd gan Ofqual oddi wrth gyrff dyfarnu. Mae'n cynnwys data ar yr amrywiaeth o dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a roddwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018 (chwarter 3).

Cynnwys

Cyflwyniad..... 2
Ystadegau..... 6
Rhestr termau.....13
Nodiadau cefndir.....17

Ystadegydd: Jonathan Davey 01633 373 261 ystadegau@cymwysteraucymru.org

Ymholiadau gan y cyfryngau: Alan Morris 01633 373 216 cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

O bedwerydd chwarter (Hydref-Rhagfyr) 2017, rydym wedi cyflwyno adroddiad ar dystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill i Gymru. Nid yw'r data hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, Dyfarniadau Estynedig Uwch, cymwysterau Prif Ddysgu na chymwysterau Prosiect. I ddechrau, rydym yn defnyddio data a gasglwyd gan Ofqual gan gyrff dyfarnu, ond rydym yn gweithio tuag at gasglu ein data ein hunain ar y cymwysterau a reoleiddir gennym. Cyn pedwerydd chwarter (Hydref-Rhagfyr) 2017, Ofqual[1] oedd yn casglu ac yn cyhoeddi data i Gymru. Rydym wedi ceisio sicrhau, hyd y gellir, fod yr ystadegau hyn yn gyson ag ystadegau cynharach Ofqual.

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data a gasglwyd gan Ofqual ar yr amrywiaeth o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a thystysgrifau a roddwyd yn ystod chwarter 3 2018 (Ch3 2018). Mae'r ffigurau yn cynrychioli nifer y tystysgrifau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn diogelu cyfrinachedd, a ddyfarnwyd gan gyrff dyfarnu rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2018. Nid yw'r ystadegau hyn yn cyfeirio at ddysgwyr unigol, oherwydd gallai dysgwr fod wedi ennill nifer o dystysgrifau mewn unrhyw gyfnod penodol a gyflwynir yn y datganiad hwn.

Mae'r data a gasglwyd yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a restrir ar gofrestr Ofqual a/neu gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)[2]. Mewn rhai achosion, rhestrir yr un cymwysterau ar gofrestr Ofqual a QiW.

Rydym wrthi'n datblygu ein gweithdrefn casglu data ein hunain a'r ffordd rydym yn paratoi ac yn cyhoeddi'r ystadegau hyn, a'r rheswm dros hyn yw:

- Mae ein dull rheoleiddio yn wahanol i ddull rheoleiddio Ofqual: mae Ofqual yn cadw cofrestr o'r holl gymwysterau a reoleiddir ganddi; mae'n gofyn i gyrff dyfarnu optio i mewn i gymwysterau ar gyfer

[1] Ofqual (2017) *Changes to the publication of geographical breakdowns of data.* [ar-lein]. Ar gael yn:https://www.gov.uk/government/news/changes-to-the-publication-of-geographical-breakdowns-of-data [Cyrchwyd 22 Awst 2018].

[2] Mae QiW yn gofrestr o gymwysterau rheoleiddiedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

rheoleiddio. Nid ydym yn cadw cofrestr lawn ar hyn o bryd o'r holl gymwysterau a reoleiddir gennym; rydym yn gofyn i gyrff dyfarnu optio allan o gymwysterau nad ydynt yn dymuno iddynt gael eu rheoleiddio. Efallai y byddwn yn adrodd ar rai tystysgrifau yn y datganiad hwn ar gyfer cymwysterau nad ydym yn eu rheoleiddio, gan fod rhai o'r cymwysterau a restrir ar gofrestr Ofqual yn debygol o fod wedi'u hildio o ran eu rheoleiddio yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Hefyd, efallai y bydd nifer fach o gymwysterau nad ydynt yn gymwys i gael arian cyhoeddus ac mai dim ond yng Nghymru y cânt eu dyfarnu nad oes cyfrif amdanynt ar hyn o bryd.

- Byddwn yn gweithio tuag at ddosbarthu cymwysterau yn ôl math yn gyson er mwyn i'r dadansoddiad hwn gael ei gyhoeddi yn y dyfodol.

Dadansoddi cymwysterau

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys dadansoddiadau o dystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau yn ôl Maes Pwnc Sector a lefel. Wrth baratoi'r dadansoddiadau hyn, rydym wedi parhau i ddefnyddio methodoleg Ofqual. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran ar 'Methodoleg' yn y nodiadau cefndir.

Mae 'lefel' cymhwyster yn dangos lefel y gofynion i ddysgwyr. Mae'r tabl ar frig y dudalen nesaf yn dangos y berthynas rhwng lefelau a mathau o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill ar gofrestr Ofqual a QiW. Mae mathau o gymwysterau nas dyfarnwyd yng Nghymru yn ystod y 12 mis hyd at ddiwedd Ch3 2018 wedi'u lliwio'n las yn y tabl.

Math o gymhwyster	**Lefelau presennol**
Sgiliau Sylfaenol	Lefel Mynediad, Lefelau 1 a 2
AHGP[4]	Lefelau 1 i 6
Asesu ar y diwedd	Lefelau 2 i 7
Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3
Lefel mynediad	Lefel Mynediad
Sgiliau Hanfodol Cymru	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 3
Cymhwyster mathemateg annibynnol	Lefelau 1,2,3
Sgiliau gweithredol	Lefel mynediad, Lefelau 1 a 2

Math o gymhwyster	**Lefelau presennol**
Lefel Uwch	Lefelau 4 i 8
AHGC [3]	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 5
Sgiliau allweddol	Lefelau 1 i 4
NVQ	Lefelau 1 i 5
Cymhwyster 'cyffredinol arall'	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3
Cymhwyster galwedigaethol	Lefelau 1 i 4
FfCCh[5]	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
Cymhwyster sy'n ymwneud â galwedigaeth	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
Bagloriaeth Cymru[6]	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3

[3] Ystyr AHGC yw 'Addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol'. Fe'i defnyddir i ddosbarthu cymwysterau galwedigaethol rhagarweiniol sy'n addas ar gyfer pob oed a gallu (gweler https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf).

[4] Ystyr AHGP yw 'Addysg a hyfforddiant galwedigaethol parhaus'. Fe'i defnyddir i ddosbarthu cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol ar gyfer y sawl dros 16 oed (gweler https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf).

[5] Ar 1 Hydref 2015, tynnodd Ofqual ofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh) yn ôl. Fodd bynnag, am resymau gweinyddol, hyd at haf 2016, bu modd i sefydliadau dyfarnu barhau i ddefnyddio'r math FfCCh ar system Ofqual ar gyfer cymwysterau newydd pan nad oedd unrhyw fath arall yn briodol. Yn sgil penderfyniad Ofqual, tynnwyd gofynion y FfCCh yn ôl gennym ni hefyd o 1 Rhagfyr 2015. Ar ôl i QiW gael ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2016, ni chafodd cymwysterau newydd eu dosbarthu yn rhai FfCCh mwyach.

[6] Mae'r math 'Bagloriaeth Cymru' yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (ar bob lefel) a Bagloriaeth Cymru ar bob lefel (mae'r olaf yn gofyn i ddysgwyr ennill cymwysterau eraill ar lefelau penodedig yn ogystal â'r Dystysgrif Her Sgiliau berthnasol).

DYLANWADAU ALLANOL

Bagloriaeth Cymru

Yn sgil 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru'[7], a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011, cyflwynwyd Bagloriaeth newydd i Gymru i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2015. Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Fagloriaeth Cymru, cyhoeddodd bolisi y câi ei mabwysiadu'n gyffredinol. Golyga hyn fod Bagloriaeth Cymru ar gael i bob ysgol a Choleg AB i'w chynnig, yn hytrach na dim ond y rhai hynny a gymeradwywyd i'w chynnig, sef y sefyllfa o ran Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf flaenorol. Pennodd y polisi[8] dargedau hefyd i ysgolion a Cholegau AB gynyddu'n raddol gyfran y myfyrwyr sy'n sefyll Bagloriaeth Cymru, gyda'r nod o sicrhau y bydd y mwyafrif llethol o ddysgwyr yng Nghymru yn ei sefyll fel rhan o'u rhaglen astudio erbyn 2019/20. Mae Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf ddiwygiedig yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau. Cynhwyswyd nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Ar gyfer Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf flaenorol, gallai cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol gyfrif tuag at y dyfarniad (ochr yn ochr â chymwysterau eraill). Gallai dysgwyr fod wedi ennill tystysgrifau mewn nifer o gymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol i gyfrif tuag at y dyfarniad. Nid yw'r cymwysterau presennol ar gyfer Sgiliau Allweddol na Sgiliau Hanfodol yn cyfrif tuag at ddyfarnu Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yng Nghyfnod Allweddol 4, na Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ychwaith. Fodd bynnag, gall cymwysterau newydd Sgiliau Hanfodol Cymru gyfrif tuag at Ddiploma Sylfaen Ôl-16 a Diploma Cenedlaethol Bagloriaeth Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gymariaethau dros amser yn y cyhoeddiad hwn.

Mesurau Perfformiad

Gall newidiadau i fesurau perfformiad hefyd fod yn effeithio ar nifer y tystysgrifau a roddir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill dros amser, yn enwedig ar lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, cafodd cymwysterau galwedigaethol eu capio i roi uchafswm o 40% o'r pwyntiau ar gyfer mesurau trothwy ysgolion (Cyfnod Allweddol 4) Llywodraeth Cymru. Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid arall i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â gwyddoniaeth. Ar ôl hynny, dim ond cymwysterau Gwyddoniaeth TGAU oedd yn cyfrif. Yn flaenorol, caniatawyd i gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol gyfrif[9].

---

[7] Llywodraeth Cymru (2014) *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* [ar-lein]. Ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-gymwysterau-ar-gyfer-pobl-ifanc-14-i-19-oed-adroddiad-terfynol-ac-argymhellion [Cyrchwyd 22 Awst 2018].

[8] Llywodraeth Cymru (2017) *Bagloriaeth Cymru ôl-16: cofnodi a mesur deilliannau* [ar-lein]. Ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/bagloriaeth-cymru-ol-16-cofnodi-a-mesur-deilliannau.pdf[Cyrchwyd 22 Awst 2018].

[9] Ceir rhagor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru yn: https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2017/12/06/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-deall-newidiadau-i-ddata-addysg/ [Cyrchwyd 22 Awst 2018].

YSTADEGAU

CYFANSWM Y TYSTYSGRIFAU A THUEDDIADAU HANESYDDOL

Tabl 1: Cymhariaeth â'r un chwarter mewn blynyddoedd blaenorol a'r 12 mis blaenorol

Blwyddyn	Ion-Maw	Ebr-Meh	Gorff-Med	Hyd-Rhag
2013	93,840	172,940	305,805	68,625
2014	112,970	182,355	258,805	68,670
2015	94,055	164,575	295,855	59,645
2016	85,980	114,915	250,880	59,020
2017	54,310	82,445	226,540	57,420
2018	53,670	85,260	**224,315**	N/A
2013	582,675	609,830	631,980	641,205
2014	660,340	669,755	622,755	622,800
2015	603,885	586,110	623,160	614,140
2016	606,065	556,400	511,420	510,795
2017	479,120	446,650	422,315	420,715
2018	420,075	422,890	**420,665**	N/A

Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol Ofqual gan gyrff dyfarnu

Cymhariaeth Chwarterol

Dyfarnwyd 216,130 o dystysgrifau yn Ch3 2018, sef gostyngiad o 4.6% o gymharu â'r un chwarter yn 2017. Mae'r gostyngiad hwn yn ymwneud â gostyngiadau yn nifer y tystysgrifau lefel 1 (i lawr o 3,700) a lefel 2 (i lawr o 7,820) yn bennaf, er y cânt eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn tystysgrifau lefel 3 (i fyny o 2,750).

Cymhariaeth Flynyddol

Rhoddwyd 412,480 o dystysgrifau yn y 12 mis diweddaraf (Ch4 2017 – Ch3 2018), sef gostyngiad o 2.3% o gymharu â'r 12 mis blaenorol (Ch4 2016 – Ch3 2017). Yn yr un modd â'r gymhariaeth chwarterol, cafodd y gostyngiad cyffredinol ei lywio gan lai o dystysgrifau lefel 1 (i lawr o 5,875) a lefel 2 (i lawr o 25,895), a gafodd ei wrthbwyso gan gynnydd mawr mewn tystysgrifau lefel 3 (i fyny o 22,500). Mae'r cynnydd hwn mewn cymwysterau lefel 3 yn debygol o fod yn ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i newid canolbwynt eu polisi ar gymwysterau lefel uwch.

TYSTYSGRIFAU YN ÔL MAES PWNC SECTOR

Tabl 2: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl maes pwnc sector

Maes Pwnc Sector	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
	2017 Ch3	2018 Ch3	Hyd 2016 - Med 2017	Hyd 2017 - Med 2018
01 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	23,050	21,435	70,570	73,145
02 Gwyddoniaeth a Mathemateg	10,605	5,175	13,285	6,180
03 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	2,820	2,785	8,100	6,850
04 Technolegau Peirianneg a Gweithgynhyrchu	11,000	9,375	25,005	21,940
05 Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiedig	8,085	7,870	18,970	17,280
06 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	6,540	4,605	9,225	7,180
07 Manwerthu a Mentrau Masnachol	8,840	10,050	28,970	28,610
08 Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	7,765	6,340	16,085	15,725
09 Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi	13,340	12,955	30,105	28,385
10 Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	225	130	260	135
11 Gwyddorau Cymdeithasol	130	385	130	390
12 Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	5,650	6,240	13,450	10,630
13 Addysg a Hyfforddiant	1,245	1,595	3,455	4,245
14 Paratoi at Fywyd a Gwaith	114,700	115,805	161,855	168,550
15 Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	12,540	11,370	22,845	23,230
Cyfanswm	**226,540**	**216,130**	**422,315**	**412,480**

Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol Ofqual gan gyrff dyfarnu

Y prif sector pwnc yn y chwarter hwn oedd 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' a rhoddwyd 115,805 o dystysgrifau neu 53.6% o'r holl dystysgrifau yn Ch3 2018. Nid oes unrhyw faes pwnc sector arall yn cynnwys dros 10% o'r tystysgrifau a roddwyd yn chwarter 3, ac 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' oedd yr ail sector mwyaf (21,435 o dystysgrifau, 9.9% o'r cyfanswm).

Y sector 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' a roddodd y nifer fwyaf o dystysgrifau hefyd yn Ch4 2017 – Ch3 2018 (168,550 neu 40.9% o'r cyfanswm). Cafwyd cynnydd o 4.1% yn y sector hwn yn nifer y tystysgrifau a roddwyd o gymharu â Ch4 2016 – Ch3 2017 (161,840). Y sector 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' oedd yr ail sector mwyaf lle y rhoddwyd 73,145 o dystysgrifau (17.7% o'r cyfanswm), sef cynnydd o 3.7% o gymharu â Ch4 2016 – Ch3 2017. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad chwarterol o 7.0% o gymharu â Ch3 2017 yn y sector hwn.

Ffigur 2: Newid canrannol yn nifer y tystysgrifau a roddwyd yn ôl Maes Pwnc Sector rhwng Ch3 2018 a Ch3 2017



Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol Ofqual gan gyrff dyfarnu

Mae Ffigwr 2 yn dangos y cafwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf yn y tystysgrifau a roddwyd yn Ch3 2018 eleni yn y sector 'Gwyddorau Cymdeithasol' (196.9%) o gymharu â Ch3 2017. Fodd bynnag, mae Tabl 2 yn dangos mai dyma'r Maes Pwnc Sector â'r lleiaf o dystysgrifau ac felly mae'n fwy tebygol o weld newidiadau cyfnewidiol o flwyddyn i flwyddyn. Cafwyd cynnydd cyfrannol mawr hefyd yn y sectorau ' Addysg a Hyfforddiant ' (28.2%) ac 'Manwerthu and Mentrau Masnachol' (13.7%) eleni yn nifer y tystysgrifau a roddwyd yn Ch3 2018 o gymharu â Ch3 2017.

'Gwyddoniaeth a Mathemateg' a 'Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth' oedd y Meysydd Pwnc Sector lle y gwelwyd y lleihad cyfrannol mwyaf yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd, sef 51.2% a 42.5% yn y drefn honno.

TYSTYSGRIFAU YN ÔL LEFEL

Tabl 3: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl lefel

Lefel	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
	2017 Ch3	2018 Ch3	Hyd 2016 - Med 2017	Hyd 2017 - Med 2018
Lefel Mynediad	16,245	14,720	33,235	31,255
Lefel 1	28,385	24,695	63,660	57,785
Lefel 1/2	61,070	61,050	64,565	63,865
Lefel 2	64,850	57,030	166,445	140,550
Lefel 3	52,350	55,100	85,705	108,205
Lefel 4	1,515	1,595	3,535	4,705
Lefel 5	1,565	1,350	4,200	4,870
Lefel 6	500	530	745	870
Lefel 7	55	55	220	375
Lefel 8	0	*	*	*
Cyfanswm	**226,540**	**216,130**	**422,315**	**412,480**

Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol Ofqual gan gyrff dyfarnu

Mae Tabl 3 yn dangos nifer y tystysgrifau a roddwyd yn ystod chwarter 3, o gymharu â'r un chwarter yn 2017, ac yn ystod y 12 mis diwethaf, o gymharu â'r 12 mis blaenorol. Roedd y tair lefel â'r nifer fwyaf o dystysgrifau yn Ch3 2018 (lefel 1/2, lefel 2 a lefel 3) yn cynrychioli 80.1% o gyfanswm nifer y tystysgrifau ar gyfer y chwarter. Roedd yr un lefelau yn cynrychioli 75.8% o'r cyfanswm blynyddol. Roedd newidiadau rhwng Ch3 2017 a Ch3 2018 yn amrywio o ostyngiad o 13.7% ar gyfer lefel 5 i gynnydd o 5.8% ar gyfer lefel 6. Roedd cynnydd blynyddol ar gyfer lefel 3 ac uwch, ac eithrio lefel 8, a gostyngiadau blynyddol ar gyfer lefel 2 ac is, ac eithrio lefel mynediad.

Y CYRFF DYFARNU UCHAF O RAN TYSTYSGRIFAU A RODDWYD

Tabl 4: Y 10 corff dyfarnu uchaf o ran y nifer fwyaf o dystysgrifau a roddwyd yn y 12 mis hyd ddiwedd y chwarter hwn

Corff dyfarnu	Hyd 2016 - Med 2017	Hyd 2017 - Med 2018	Safle Hyd 2016 - Med 2017	Safle Hyd 2017 - Med 2018	Newid Safle
WJEC-CBAC	85755	91605	2	1	1
City and Guilds of London Institute	88630	89640	1	2	-1
Pearson Education Ltd	64920	55480	3	3	0
Highfield Qualifications	24975	32490	4	4	0
Agored Cymru	10045	17950	9	5	4
Qualsafe Awards	9505	12055	10	6	4
OCR	14560	10800	5	7	-2
Associated Board of the Royal Schools of Music	11310	10480	7	8	-1
Trinity College London	6780	8830	12	9	3
Excellence, Achievement & Learning Limited	7205	8205	11	10	1

Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol Ofqual gan gyrff dyfarnu

Mae Tabl 4 yn dangos y 10 corff dyfarnu uchaf o ran tystysgrifau a roddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf hyd ddiwedd y chwarter hwn, o gymharu â'r 12 mis blaenorol. Mae CBAC wedi codi un safle fel y corff dyfarnu â'r nifer fwyaf o dystysgrifau a roddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r cynnydd yn nifer y tystysgrifau Bagloriaeth Cymru a roddwyd yn Ch3 2018 o gymharu â Ch3 2017 yn egluro hyn. Mae City and Guilds of London Institute wedi disgyn i'r ail safle er ei fod wedi dyfarnu 1,010 o dystysgrifau ychwanegol yn y 12 mis diwethaf (cynnydd o 1.1%).

Cafwyd cynnydd o 7,905 yn nifer y tystysgrifau a roddwyd gan Agored Cymru (cynnydd o 78.7%) dros y 12 mis diwethaf, gan symud i fyny pedwar safle fel y corff dyfarnu â'r pumed nifer fwyaf o dystysgrifau a roddwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau sydd wedi'u dyrannu i Faes Pwnc Sector Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith, yn enwedig cymwysterau diwygiedig Sgiliau Hanfodol Cymru.

Mae Pearson Education Ltd wedi aros yn y trydydd safle ond mae wedi rhoi 9,440 yn llai o dystysgrifau yn ystod y 12 mis diwethaf (gostyngiad o 14.5%). Mae'r newid hwn yn bennaf oherwydd gostyngiadau yn nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau sydd wedi'u dyrannu i sectorau 'Gwyddoniaeth a Mathemateg', 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' a 'Pheirianneg a Gweithgynhyrchu Technolegau'.

Y CYMWYSTERAU UCHAF O RAN TYSTYSGRIFAU A RODDWYD

Tabl 5: Y 10 cymhwyster uchaf o ran y nifer fwyaf o dystysgrifau a roddwyd yn ystod y chwarter hwn

Cymhwyster	2017 Ch3	2018 Ch3
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru)	23,805	26,960
CBAC Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	21,825	25,950
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)	11,330	12,045
CBAC Bagloriaeth Cymru Uwch	9,195	10,185
LIBF Tystysgrif Lefel 2 mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfaoedd	4,205	4,020
CBAC Tystysgrif Lefel 2 mewn Mathemateg Ychwanegol	2,455	3,130
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol	2,140	2,340
Highfield Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo (RQF)	165	1,945
Pearson Edexcel Tystysgrif Lefel 2 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol	1,270	1,615
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol	1,855	1,595

Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol Ofqual gan gyrff dyfarnu

Mae Tabl 5 yn dangos y 10 cymhwyster uchaf o ran y nifer fwyaf o dystysgrifau a roddwyd yn y chwarter diweddaraf o gymharu â nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer yr un cymwysterau yn yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.

Roedd y pedwar cymhwyster uchaf yn Ch3 2018 yn rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru, a rhoddwyd y nifer fwyaf o dystysgrifau ar gyfer cymhwyster CBAC Sylfaen/Her Sgiliau Cenedlaethol (Bagloriaeth Cymru) (26,960), ac yna gymhwyster CBAC Cenedlaethol/Sylfaen Bagloriaeth Cymru (25,950). Gyda'i gilydd, mae pedwar cymhwyster uchaf Bagloriaeth Cymru yn cynrychioli 34.8% o'r holl dystysgrifau a roddwyd yn ystod Ch3 2018.

Tabl 6: Y 10 cymhwyster uchaf o ran y nifer fwyaf o dystysgrifau a roddwyd yn ystod y 12 mis diweddaraf

Cymhwyster	Hyd 2016 - Med 2017	Hyd 2017 - Med 2018
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru)	23,805	26,960
CBAC Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	21,825	25,950
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)	11,330	12,045
CBAC Bagloriaeth Cymru Uwch	9,195	10,185
Highfield Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo (RQF)	165	7,935
HIghfield Dyfarniad Lefel 3 Cymorth Cyntaf ar frys yn y Gwaithle (RQF)	0	6,455
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol	3,710	6,385
QA Lefel 3 Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	0	5,735
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol	3,505	4,705
LIBF Tystysgrif Lefel 2 mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfaoedd	4,205	4,040

Ffynhonnell: Casgliad data cymwysterau galwedigaethol Ofqual gan gyrff dyfarnu

Mae Tabl 6 yn dangos y 10 cymhwyster uchaf o ran y nifer fwyaf o dystysgrifau a roddwyd yn Ch4 2017 – Ch3 2018 o gymharu â Ch4 2016 – Ch3 2017.

Gan mai chwarter 3 yw'r chwarter prysuraf o ran dyfarnu tystysgrifau, mae'r data yn debyg iawn i'r data a gyflwynwyd ar gyfer Ch3 2018 yn Nhabl 5. Mae'r cymwysterau sy'n rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru yn cynrychioli'r pedwar cymhwyster a ddyfarnwyd amlaf dros y 12 mis diwethaf, gyda chymhwyster CBAC Sylfaen/Her Sgiliau Cenedlaethol (Bagloriaeth Cymru) ar y brig gyda 26,960 o dystysgrifau. 2017 oedd y flwyddyn gyntaf y rhoddwyd tystysgrifau ar gyfer y cymhwyster hwn, yn ogystal â chymhwyster CBAC Cenedlaethol/Sylfaen Bagloriaeth Cymru (gweler dylanwadau allanol am ragor o wybodaeth).

Ar wahân i gymwysterau Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau ar eu newydd wedd, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo (RQF) Highfield a Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF) Highfield, sef cynnydd o 7,765 a 6,455 yn y drefn honno. Mae'n bosibl y gellir priodoli rhywfaint o'r cynnydd hwn i'r ffaith bod y cymwysterau cyfredol yn fersiynau diwygiedig o'r cymwysterau FfCCh blaenorol.

RHESTR TERMAU

Cymeradwyo cymwysterau/meini prawf cymeradwyo/cymwysterau cymeradwy
Pan gaiff cymhwyster ei restru ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol rydym yn cyhoeddi meini prawf ar ei gyfer. Cymeradwyo yw ein proses o gymeradwyo cymwysterau o'r fath yn erbyn y meini prawf cymeradwyo. Ni chaiff cymwysterau cymeradwy eu rheoleiddio gan reoleiddwyr cymwysterau eraill yng Nghymru ac maent fel arfer wedi'u llunio'n benodol i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr yng Nghymru.

Corff dyfarnu
Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU, gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

Cydnabyddiaeth corff dyfarnu
Er mwyn cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru. Mae angen i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'n meini prawf cydnabod a gwneud cais am gydnabyddiaeth.

Tystysgrif/Tystysgrif a roddwyd
Cydnabyddiaeth ffurfiol o gyflawniad myfyriwr. Bydd yn cynnwys unrhyw ddyfarniad nad yw wedi ei raddio'n U, yn absennol neu'n X (methu).

Dyddiad diwedd rhoi tystysgrif
Ni ellir dyfarnu cymhwyster i ddysgwyr, fel cymhwyster cymeradwy neu ddynodedig, ar ôl y dyddiad hwn.

Cymwysterau Dynodedig
Cymwysterau rheoleiddiedig a ddynodir gan Cymwysterau Cymru yn rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, fel y'u diffiniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Rydym yn ystyried nifer o faterion wrth benderfynu p'un a ddylai cymwysterau gael eu dynodi.

Cymhwyster Cyffredinol
Mae'n disgrifio cymwysterau a gymerir fel arfer gan ddysgwyr yn yr ysgol neu'r coleg fel rhan o'u haddysg statudol neu eu haddysg bellach. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru a chymwysterau eraill

sy'n rhannu rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i gymwysterau TGAU a Safon Uwch. CBAC yw prif ddarparwr y cymwysterau hyn yng Nghymru, ond caiff rhai eu cynnig gan gyrff dyfarnu eraill hefyd.

Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol

Cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd sy'n ymwneud â gwaith sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o sectorau diwydiant a galwedigaethau, ac sy'n cael eu cyflwyno yn y gweithle.

Cofrestr Ofqual

Cofrestr Cymwysterau Rheoleiddiedig[10] sy'n cynnwys manylion y cymwysterau a'r sefydliadau dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual a CCEA Regulation.

Cymwysterau cyffredinol eraill

Cymwysterau sy'n asesu maes pwnc penodol, megis cerddoriaeth neu gelf, heblaw am gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Nid yw'r cymwysterau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith ond gallant gefnogi datblygiad gyrfa. Maent yn aml yn cael eu strwythuro yn erbyn arholiadau graddedig. Mae'r categori hefyd yn cynnwys cymwysterau sy'n cael eu categoreiddio'n dystysgrifau lefel 1/2.

Cymwysterau rheoleiddiedig eraill

Y cymwysterau hynny a ddyfernir yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, nad ydynt wedi'u dynodi na'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ac nad yw cyrff dyfarnu wedi'u hildio na'u heithrio o gwmpas eu cydnabyddiaeth.

Math o Gymhwyster

Mae mathau o gymhwyster yn cyfeirio at grwpiau o gymwysterau sydd wedi cael eu datblygu i fodloni gofynion dylunio cyffredin. Efallai na fydd gofynion dylunio ar gyfer rhai mathau o gymhwyster yn weithredol mwyach, megis cymwysterau'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (a luniwyd i fodloni gofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau).

Lefel y Cymhwyster

Y lefel cyrhaeddiad y mae cymhwyster yn ei chynrychioli fel y'i diffinnir gan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru wedi'i gysoni â Fframwaith Cymwysterau Ewrop (FfCE). Mae hyn yn golygu y gellir cymharu lefel cymhwyster a enillir yng Nghymru â lefel yn yr FfCE. Mae hyn yn helpu pobl a sefydliadau i drosglwyddo cyflawniadau rhwng gwledydd a gweithio ledled yr Undeb Ewropeaidd.

[10] https://register.ofqual.gov.uk/.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau

Fframwaith, sydd wedi dod i ben erbyn hyn, ar gyfer cymwysterau sy'n cynnwys unedau a chymwysterau mewn tri maint. Dyfarniadau (1-12 credyd), tystysgrif (13-36 credyd) a diplomâu (37 credyd neu fwy).

Cymwysterau yng Nghymru (QiW)

Cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n cynnig ffynhonnell o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig a ddyfernir yng Nghymru[11].

Chwarter

Mae'n cyfeirio at chwarteri calendr. Mae Chwarter 1 (Ch1) yn cyfeirio at Ionawr – Mawrth,
chwarter 2 (Ch2) at Ebrill – Mehefin, chwarter 3 (Ch3) at Orffennaf – Medi, a chwarter 4 (Ch4) at Hydref – Rhagfyr.

Cymwysterau rheoleiddiedig

Pob cymhwyster nad yw'n radd (p'un a yw'n gymhwyster cymeradwy, dynodedig neu fath arall o gymhwyster rheoleiddiedig) a gynigir i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru (oni bai bod corff dyfarnu wedi ildio ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, neu wedi eithrio'r cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth drwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).

Maes Pwnc y Sector

Mae meysydd pwnc sector yn gyfres o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau.

Maes Pwnc Is-sector (categori Pwnc Sector gynt)

Meysydd is-sector yw'r ail haen o gategorïau sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddosbarthu cymwysterau.

Ildio Cydnabyddiaeth

Gall cydnabyddiaeth ddod i ben pan fo corff dyfarnu yn penderfynu ildio cydnabyddiaeth yn rhannol neu'n llawn. Gall cyrff dyfarnu cydnabyddedig ildio rhan o'u cydnabyddiaeth drwy hysbysu Cymwysterau Cymru am gymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, yr hoffent eu cynnig fel cymwysterau nas rheoleiddir. Yn yr achosion hyn, ni all y cymwysterau nas rheoleiddir gynnwys logo Cymwysterau Cymru ar y tystysgrifau a roddir i ddysgwyr.

[11] https://www.qiw.wales/?lang=cy/.

Cymhwyster Galwedigaethol

Cymwysterau a ddyfernir gan gorff dyfarnu ac y rhoddir tystysgrif ar eu cyfer, a astudir gan ddysgwyr 14 oed neu'n hŷn, ac sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â byd gwaith. Mae'r cymwysterau hyn yn is-set i'r cymwysterau a gynhwysir yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Cymwysterau sy'n ymwneud â galwedigaeth

Cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd sy'n ymwneud â gwaith a luniwyd i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i fyfyrwyr sydd eu hangen i wneud swydd. Maent yn gysylltiedig â chyflogaeth ond, yn wahanol i gymwysterau NVQ, nid ydynt o reidrwydd yn gofyn am brofiad nac asesiad yn y gweithle.

NODIADAU CEFNDIR

Statws

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Rydym wedi datblygu ein prosesau o hyd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol yn llawn, gan alluogi'r datganiad ystadegol hwn i gael ei gyhoeddi'n ffurfiol fel ystadegyn swyddogol.

Ffynhonnell Data

Mae'r cyrff dyfarnu wedi hysbysu Ofqual am nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol neu gymhwyster arall yn Chwarter 3 2018 (Gorffennaf - Medi 2018). Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru y mae'r tystysgrifau a roddwyd, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Nid yw'n cynnwys y Dyfarniad Estynedig Uwch, cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch na chymwysterau prosiect a chymwysterau prif ddysgu. Mae nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer y cymwysterau hyn ar gael ar wefan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau[12].

Cyn Chwarter 4 2017, cafodd data eu casglu a'u hadrodd gan Ofqual. Caiff data o Chwarter 4 2017 ymlaen eu casglu gan Ofqual a'u rhoi i Cymwysterau Cymru ar gyfer yr adroddiad hwn i Gymru.

Mae data ar gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig a gynigir yng Nghymru ar gael yng nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)[13].

Mae data ar gymwysterau a reoleiddir gan Ofqual ar gael ar gofrestr Ofqual.[14]

Methodoleg

Mae nodweddion cymwysterau, megis maes sector pwnc a lefel, a gynhwysir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar gofrestr Ofqual a chronfa ddata QiW ar gyfer y dadansoddiad a geir yn yr adroddiad hwn. Mae templed Ofqual yn galluogi cyrff dyfarnu i gyflwyno data ar gyfer yr un cymhwyster yn erbyn rhif QiW (dynodydd unigryw ar gyfer cymwysterau ar gronfa ddata QiW), QAN (dynodydd unigryw ar gyfer cymwysterau ar gofrestr Ofqual) neu gyfran yn erbyn y ddau i Gymru. Lle mae cyrff dyfarnu wedi cyflwyno data i Ofqual gan ddefnyddio rhif QiW, caiff nodweddion

[12] www.jcq.org.uk/
[13] https://www.qiw.wales/?lang=cy
[14] https://register.ofqual.gov.uk/

y cymhwyster eu tynnu o gronfa ddata QiW, a lle mae cyrff dyfarnu yn cyflwyno data gan ddefnyddio QAN, caiff nodweddion y cymhwyster eu tynnu o gofrestr Ofqual.

Mewn rhai achosion, bydd y nodweddion a ddelir ar gronfa ddata QiW ar gyfer cymhwyster yn wahanol i'r nodweddion a ddelir ar gofrestr Ofqual ar gyfer yr un cymhwyster. Yn yr achosion hyn, os yw tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymhwyster wedi cael eu cofnodi yn erbyn ei ddynodydd QiW a QAN, caiff yr un cymhwyster ei gofnodi o dan ddau gategori nodweddiadol gwahanol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data hanesyddol am y pum mlynedd diwethaf. Lle mae cymwysterau yn dal yn fyw ar y cofrestrau, bydd y data hanesyddol a gyhoeddir yn yr adroddiad hwn yn dangos y nodweddion hyn fel ag y maent ar y diwrnod y cafodd yr adroddiad ei redeg ar gyfer y chwarter diweddaraf. Os nad yw'r cymhwyster yn fyw mwyach, caiff y nodweddion diweddaraf a gofnodwyd ar gyfer y cymhwyster hwnnw ar y cofrestrau eu nodi. Mae hyn yn unol â methodoleg Ofqual.

Cwmpas Daearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill ar gyfer Chwarter 3 (Gorffennaf - Medi 2018) ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol na chymwysterau eraill sy'n cael eu sefyll y tu allan i Gymru, na thystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, Dyfarniad Estynedig Uwch, cymwysterau Prosiect na chymwysterau Prif Ddysgu.

Cyfyngiadau'r data

Ar hyn o bryd mae Ofqual yn casglu data i Gymru ar ein rhan. Yn ei nodiadau cefndir mae'n disgrifio cyfyngiadau'r data:

“Data are collected at the earliest point available, which is the first day of the next reporting period. Mae hyn yn lleihau'r amser rhwng y gweithgaredd a rhoi gwybod am y gweithgaredd.
Gellir gwneud camgymeriadau o bosibl yn y wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Ofqual cannot guarantee the number of certificates submitted is correct and there may be systematic bias when the information is sent, although awarding organisations are expected to provide the correct data. Ofqual compares the data over time and checks for systematic issues. Summary data are then sent back to awarding organisations to be checked and confirmed. The figures reported in this release reflect the certificates issued by awarding organisations at the time of data collection.”

Ar 4 Mai 2018, tynnodd Ofqual gydnabyddiaeth The Awarding Body for Vocational Achievement (AVA) Ltd (sy'n masnachu fel BAA) yn ôl. Gweler y dudalen hon am ragor o fanylion. Fel rhan o'r ymchwiliad a gynhaliwyd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, canfuwyd bod AVA wedi bod yn darparu data anghywir ar y tystysgrifau a roddwyd i Ofqual. Nid yw'n ymarferol casglu data wedi'u cywiro gan AVA ond gwyddys mai cywiriadau bach ydynt. Roedd AVA wedi rhoi nifer fach iawn o dystysgrifau (tua 15 yn y pum mlynedd diwethaf yn ôl y data presennol), felly nid yw'r gwallau hyn yn cael effaith sylweddol ar dueddiadau cyffredinol yn y data. Felly, rydym wedi cynnwys data presennol AVA fel ag y maent yn y datganiad ystadegol hwn.

Cymariaethau

Cafodd y data hyn eu casglu yn yr un ffordd gan Ofqual ag mewn chwarteri blaenorol. Mae Ofqual yn rhagboblogi ei ffurflenni casglu data â chymwysterau o'i chofrestr ac o'n cronfa ddata, QiW. Ar gyfer y cyhoeddiad hwn rydym wedi dileu cymwysterau gan gyrff dyfarnu nad ydym yn eu cydnabod. Rydym wedi gwneud hyn am y pum mlynedd diwethaf a gynhwysir yn y cyhoeddiad hwn a'u tablau data cyfatebol. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ar ddechrau chwarter (e.e. 1 Ionawr) mae'r data ar gyfer y corff dyfarnu hwnnw wedi cael eu dileu o'r chwarter hwnnw ymlaen. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth rhan o'r ffordd drwy chwarter, mae'r data ar gyfer y chwarter hwnnw wedi'u cynnwys, ac mae'r corff dyfarnu wedi cael ei ddileu o'r data o'r chwarter dilynol ymlaen. Mewn nifer fach o achosion, mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ac yna wedi cael ei gydnabod eto yn ddiweddarach. Yn yr achosion hyn, dim ond lle nad oedd y corff dyfarnu wedi'i gydnabod ar gyfer y chwarter cyfan y mae'r data wedi cael eu hepgor.

Felly, mae'n bosibl na fydd chwarteri hanesyddol a chyfansymiau blwyddyn yn cyfateb i'r hyn a gyhoeddir gan Ofqual. Mae'r tabl isod yn dangos effaith hyn ar gyfansymiau ar gyfer pob chwarter:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
Number of certificates removed	90	45	110	230	*	55	110	75	105	0
Percentage of total certificates	0.15%	0.05%	0.06%	0.07%	0.00%	0.05%	0.06%	0.03%	0.16%	0.00%

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
Number of certificates removed	0	20	280	265	130	215	215	245	225	180
Percentage of total certificates	0.00%	0.01%	0.47%	0.31%	0.11%	0.09%	0.36%	0.45%	0.27%	0.08%

Yn achos dwy bartneriaeth rhwng cyrff dyfarnu – CBAC-EDEXCEL a Pearson EDI – gwyddom na chafodd eu cydnabyddiaeth ei throsglwyddo i Cymwysterau Cymru ar

adeg ei sefydlu ym mis Awst 2015. Ni ddyfarnodd CBAC-EDEXCEL unrhyw dystysgrifau ar ôl Ch3 2013, a gwelodd Pearson EDI leihad mawr yn nifer y tystysgrifau o Ch2 2015 ymlaen. O ystyried y tueddiadau a ddisgrifir, mae data ar gyfer y partneriaethau hyn wedi cael eu cynnwys hyd at a chan gynnwys Ch3 2015 (h.y. hyd at adeg sefydlu Cymwysterau Cymru) ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys ar ôl yr adeg hon. Mae'r tabl isod yn dangos y data ar gyfer y cyrff dyfarnu hyn – mae'r ffigurau sydd wedi'u tywyllu wedi cael eu dileu o'r data ar gyfer y datganiad hwn:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
Pearson EDI Certificates	1210	1415	1835	1050	1385	1480	1745	1905	1205	1085
WJEC-EDEXCEL Certificates	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
Pearson EDI Certificates	345	420	205	140	45	30	10	0	0	0
WJEC-EDEXCEL Certificates	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Sicrhau ansawdd

Mae Ofqual yn casglu'r data hyn ac yn sicrhau eu hansawdd ar ran Cymwysterau Cymru. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual fel y'u hesbonnir yn y Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cyhoeddiadau Ystadegol[15] a gyhoeddwyd gan Ofqual er mwyn sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu hamau, lle y bo angen. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn nodiadau cefndir datganiad chwarterol Ofqual am gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill[16].

Gellir gohirio cyhoeddi os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol fel arfer yn cael eu diwygio, er y gall datganiadau dilynol gael eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru[17], caiff ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 eu disodli gan *, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Talgrynnir pob

[15] https://www.gov.uk/government/publications/ofquals-statistics-policies-and-procedures
[16] https://www.gov.uk/government/collections/statistics-vocational-qualifications
[17] https://qualificationswales.org/cymraeg/

ffigur ar gyfer nifer y tystysgrifau a roddwyd. Yn y sylwadau a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i lywio dealltwriaeth o batrymau rhoi tystysgrifau, a helpu i fonitro cymwysterau galwedigaethol.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae Ofqual yn cyhoeddi ystadegau ar gymwysterau galwedigaethol i Loegr[18].

Ymchwil ac Ystadegau a gyhoeddir gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA)[19].

Ystadegau a gyhoeddir gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)[20].

Ystadegau a gyhoeddir gan Eurostat[21].

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 13 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru[22].

Mae cronfa ddata QiW[23] yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Chwefror 2019 (dros dro).

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy e-bost i statistics@qualificationswales.org.

(h) (2018) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.

---

[18] https://www.gov.uk/government/collections/statistics-vocational-qualifications.
[19] http://ccea.org.uk/more/research_statistics.
[20] https://www.sqa.org.uk/sqa/48269.8311.html.
[21] https://ec.europa.eu/eurostat/web/education-and-training/overview.
[22] http://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=cy
[23] https://www.qiw.wales/?lang=cy